

# Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2016

**Darparu lleoedd ysgol gynradd cyfrwng saesneg ychwanegol yn  
Ysgol Gynradd Radur**

10 Hydref - 21 Tachwedd 2016



Mae'r ddogfen hon ar gael mewn Braille. Gellir cael gwybodaeth  
hefyd mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen.  
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn.



## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Sut allwch chi ganfod mwy a rhoi eich barn?
3. Mae eich barn yn bwysig
4. Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon
5. Cefndir y cynnig
6. Y cynnig
7. Cyfleusterau mewn ysgol
8. Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd
9. Map dalgylch darpariaeth ysgolion cynradd
10. Capasiti ysgol, cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
11. Galw am leoedd cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Gynradd Radur
12. Galw diweddar am leoedd
13. Trefniant Dosbarthiadau Ysgol
14. Galw yn y dyfodol
15. Opsiynau eraill
16. Sut effeithir ar ysgolion eraill?
  - Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
  - Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
  - Ysgolion cynradd seiliedig ar ffydd
17. Sut effeithir ar y ddarpariaeth feithrin?
18. Ansawdd a Safonau
  - Estyn
  - Categoriaddio ysgolion Llywodraeth Cymru
  - Safonau
  - Darpariaeth
  - Arweinyddiaeth a Llywodraethu
19. Sut fyddai Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a darpariaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) yn cael eu heffeithio?
20. Beth yw manteision y cynnig?
21. Anfanteision posibl y cynnig
22. Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig
23. Mynediad a threfniadau dalgylchoedd
24. Sut effeithir ar ddalgylchoedd/ysgolion uwchradd?
25. Materion ariannol
26. Materion adnoddau dynol
27. Materion cludiant
28. Trefniadau teithio dysgwyr
29. Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg
30. Materion cydraddoldeb
31. Materion cynladwyedd
32. Ystyried effaith gymunedol
33. Y camau nesaf, sut i fynegi eich barn a ffurflen adborth
  - Beth sy'n digwydd nesaf?
  - Dyddiadau allweddol
  - Cyfnod ymgynghori
  - Hysbysiad statudol
  - Penderfynu ar y cynigion
  - Hysbysu'r penderfyniad
34. Cwestiynau cyffredin
35. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig ynghylch y drefniadaeth ysgolion a roddwyd gerbron yn eich ardal chi. Mae'n rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i symud ymlaen.

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac felly holir amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu barn ynglŷn â'r cynnig hwn.

Fodd bynnag, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb fynegi eu barn a'u safbwyntiau ar y cynnig.

Dengys Tabl 1 isod fanylion y grwpiau y mae'r Cyngor yn ymgynghori â hwy.

<b>Tabl 1: Y grwpiau y mae'r Cyngor yn ymgynghori â hwy</b>	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni / gofawyr	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Staff ysgol	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol y De (CSCJES)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
Trigolion lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Aelodau Lleol / Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol / Aelod Seneddol (AS)	Undebau Llafur
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Darparwyr gofal plant
Awdurdodau Cyfagos	Mudiad Meithrin
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yng Nghaerdydd	Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
Estyn	Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Cynghorau Cymuned	

## Sut allwch chi ganfod mwy a rhoi eich barn?

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus a sesiwn galw heibio lle bydd y cynnig yn cael ei esbonio. Darperir y rhain er mwyn i chi allu gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu cofnodi. Cewch hefyd roi eich barn yn ysgrifenedig.

Gweler manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori yn Nhabl 2 isod:

<b>Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori</b>		
<b>Natur yr Ymgynghoriad</b>	<b>Dyddiad/amser</b>	<b>Lleoliad</b>
Cyfarfod staff	20 Hydref 2016 3:30pm	Ysgol Gynradd Radur
Cyfarfod llywodraethwyr	20 Hydref 2016 5:30pm	Ysgol Gynradd Radur
Cyfarfod cyhoeddus	20 Hydref 2016 7 - 8:30pm	Ysgol Gynradd Radur
Sesiwn galw heibio	02 Tachwedd 2016 11am – 1pm	Llyfrgell Radur

Yn ogystal, trefnir sesiynau gweithdy gyda phlant Ysgol Gynradd Radur i roi cyfle i ddisgyblion ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y cynnig a mynegi eu barn.

## **Mae eich barn yn bwysig**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynnig.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynychu un o'r cyfarfodydd neu'r sesiynau galw heibio uchod.
- cwblhau'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a welir ar dudalen 26 o'r ddogfen hon.
- cwblhau'r ffurflen ar-lein yn [www.caerdydd.gov.uk/Ysgolion21ainGanrif](http://www.caerdydd.gov.uk/Ysgolion21ainGanrif).
- cysylltu â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar (029) 2087 2720, trwy e-bost i [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) [<mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk>](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) neu drwy'r post i Ystafell 219, Neuadd y Sir, Cei'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 21 Tachwedd. Yn anffodus, ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

## **Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon**

Sylwer y bydd y termau canlynol yn cael eu defnyddio drwy'r cyfan o'r ddogfen hon:

**Ysgolion cymunedol** – ysgol gynradd neu ysgol uwchradd wladwriaethol y mae gan yr awdurdod addysg lleol gyfrifoldebau staffio, adeiladau, a derbyniadau drosti.

**ALI** – Awdurdod Lleol sy'n golygu Cyngor Dinas Caerdydd.

**DM** – mae Dosbarth Mynediad (Form of Entry) yn cyfeirio at ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Felly mae ysgol 2DM yn ddau ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn.

**LIC** – Llywodraeth Cymru

**Data nifer ar y gofrestr** - nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol heb gynnwys disgyblion oed meithrin.

**CYBLD** - Cyfrifiad Ysgol Blynyddol - Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, cesglir gwybodaeth a wiriwyd gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, a data ar yr iaith Gymraeg, cymhwyster Prydau Ysgol am Ddim, Anghenion Addysgol Arbennig ac iaith gyntaf.

**CSCJES** – Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru. Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion i bum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

**Cyfnod Sylfaen** – Blynyddoedd cyntaf ysgol (3-7 oed)

**Cyfnod Allweddol 2** – Ail gam addysg gynradd (7-11 oed)

**AAA** – Anghenion Addysgol Arbennig

**FSM** – Prydau Ysgol am Ddim

**SIY** – Saesneg fel iaith Ychwanegol

**Gweithredu gan yr Ysgol (SA)** – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl AAA maent yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA+)** – Pan fo athro dosbarth neu bwnc a'r Cydlynnydd AAA yn cael cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol, fel y gellir gweithredu ar ymyriadau amgen sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir drwy Weithredu gan yr Ysgol ar gyfer y disgyblion.

**Plentyn â datganiad** – Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol Arbennig (AAA) os oes ganddo ef/ganddi hi anawsterau dysgu sydd angen darpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn cael llawer mwy o anhawster i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran, neu fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu'n gyffredinol ar gyfer plant.

**EIA** - Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yw proses a ddyluniwyd i sicrhau nad yw polisi, project na chynllun yn rhagfarnu yn erbyn unrhyw bobl dan anfantais neu bobl sy'n agored i niwed.

**Hysbysiad Statudol** – hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol o gynnis terfynol, os caiff ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, a dim ond pan fyddant wedi derbyn

adroddiad ar yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori y caiff hwn ei ystyried. Mae'n ofyniad cyfreithiol, fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

**Penderfynu** – pan wna Cabinet y Cyngor ei benderfyniad terfynol ar gynnig, dywedir bod y cynnig wedi ei “**Benderfynu**”.

## **Cefndir y cynnig**

Bu cynnydd yn y galw am leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ardaloedd Radur a Phentre-poeth yn y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu gan ddwy ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, Ysgol Gynradd Bryn Deri ac Ysgol Gynradd Radur.

Fel mesur dros dro i ateb y galw, darparwyd lleoedd ychwanegol drwy ddefnyddio cyfuniad o lety presennol a dros dro yn Ysgol Gynradd Radur ym Medi 2012, Medi 2013, Medi 2014, Medi 2015 a Medi 2016.

Dengys amcanestyniadau y bydd y galw hwn am leoedd yn parhau i fod yn fwy na chapasiti'r ysgolion lleol yn y dyfodol ac felly mae angen ateb parhaol. Mewn ymateb i hyn ac yn unol â gofynion statudol, mae'r Cyngor bellach yn ymgynghori ar gynnig i ddarparu lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol, gyda gweithredu'n dechrau o 2017 ymlaen.

Bydd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn amlinellu'r cynnig i ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

## **Y cynnig**

Cynyddu'r nifer o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg drwy:

- gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Radur i ganiatáu i'r ysgol dderbyn hyd at 60 o ddisgyblion o fis Medi 2017.


## **Cyfleusterau mewn ysgol**

Byddai unrhyw addasiadau i adeiladau ysgol presennol neu unrhyw adeiladau newydd a fyddai eu hangen petai'r cynnig a amlinellir uchod yn cael ei weithredu yn bodloni amodau Bwletin Adeiladu - Canllawiau Ardal ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd: Yr Adran Addysg, sy'n nodi bod angen cynnwys y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol:

- Gofod addysgu: mewnol ac allanol
- Neuaddau/ardal fwytia
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Staff a gweinyddu
- Storio
- Toiledau a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad, offer a waliau mewnol
- Ardaloedd tynnu'n ôl i gefnogi gwaith grŵp bach/AAA



## Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd



Mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu gan ddwy ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, Ysgol Gynradd Bryn Deri ac Ysgol Gynradd Radur.



Hefyd mae yn ardal Radur a Phentre-poeth yn cael eu gwasanaethu gan Ysgol Coed-Y-Gof, Pentre-baen ac Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth. Mae'r galw am leoedd yn y ddwy ysgol hon yn parhau ar lefel uchel, fodd bynnag yn y rownd gyntaf o dderbyniadau ar gyfer mynediad ym mis Medi 2016, roedd modd cynnwys yr holl ddisgyblion a oedd yn preswyllo yn y dalgylchoedd yn eu hysgol ddalgylch, os mai hon a nodwyd fel eu dewis. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol, a chyflwyno cynigion priodol i gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am leoedd pan fo angen.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n seiliedig ar ffydd yn ardal Radur a Phentre-poeth; fodd bynnag, mae nifer fach o ddisgyblion o'r ardal yn mynychu ysgolion cynradd sy'n seiliedig ar ffydd mewn ardaloedd eraill.

### Capasiti ysgol, cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Mae'r adran hon yn nodi capasiti, cyflwr ac addasrwydd Adeiladau Ysgol a'r galw presennol am leoedd mewn ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu ardaloedd Radur a Phentre-poeth.

Dengys Tabl 3 isod fanylion o gapasiti'r ysgolion a gwybodaeth ynglŷn â chyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgolion.

<b>Tabl 3: Capasiti, cyflwr ac addasrwydd ysgolion yn gwasanaethu ardaloedd Radur/Pentre-poeth</b>					
<b>Enw'r ysgol</b>	<b>Cyfrwng iaith/categori'r ysgol</b>	<b>Categori Cyflwr fel y nodwyd yn Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif</b>	<b>Capasiti presennol cyhoedde dig (4-11 oed)</b>	<b>Capasiti cyhoedde dig (meithrin - lleoedd rhan amser)</b>	<b>Lleoedd fesul grŵp blwyddyn yn gwasanaethu ardaloedd Radur/Pentre-poeth</b>
Ysgol Gynradd Radur	Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg	<b>B</b>	<b>315</b>	<b>32</b>	<b>45</b>
Ysgol Gynradd Bryn Deri	Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg	<b>B</b>	<b>184</b>	<b>80</b>	<b>30</b>
Ysgol Coed-Y-Gof	Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg	<b>B</b>	<b>389</b>	<b>0</b>	<b>60</b>
Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth	Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg	<b>B</b>	<b>237</b>	<b>40</b>	<b>33</b>

Capasiti cyffredinol cyhoeddedig Ysgol Gynradd Bryn Deri yw 184 o leoedd. Y Nifer Derbyn Cyhoeddedig, a gytunwyd mewn ymgynghoriad â Chorff Llywodraethu yr ysgol, yw 30 o leoedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Mae'r ysgol yn cynnwys 8 o ystafelloedd dosbarth addysgu, gan gynnwys yr ystafell ddosbarth meithrin. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer un ystafell ddosbarth i'r meithrin ac un ar gyfer pob grŵp blwyddyn o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

Yn 2008, gosodwyd capasiti cyffredinol cyhoeddedig Ysgol Gynradd Bryn Deri ar 315 o leoedd. Y Nifer Derbyn Cyhoeddedig, a gytunwyd mewn ymgynghoriad â Chorff Llywodraethu yr ysgol, yw 45 o leoedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae'r capasiti a aseswyd a'r Nifer Derbyn yn seiliedig ar 12 ystafell ddosbarth addysgu, gan gynnwys dwy ystafell ddosbarth mewn uned symudol.

Sefydlwyd dosbarth meithrin yn yr ysgol yn 2013. Darparwyd uned dros dro ychwanegol yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth, gan ganiatáu cynnwys y dosbarth meithrin newydd o fewn ystafell ddosbarth bresennol yn y prif adeilad a rhoi un dosbarth ychwanegol (net) i'r ysgol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnwys 14 o ystafelloedd dosbarth addysgu, gan gynnwys yr ystafell ddosbarth meithrin. Mae'r cyfluniad hwn yn golygu bod un ystafell ddosbarth yn llai nag sydd ei angen ar gyfer yr ysgol i drefnu dau ddosbarth i bob grŵp blwyddyn o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

Dengys ailasesiad o'r capasiti, gan gymryd i ystyriaeth y defnydd o ofod cymorth a rennir yn yr ysgol, bod yr ysgol yn gallu darparu ar gyfer hyd at 376 o ddisgyblion. Os gweithredir y cynnig, byddai llety digonol ar gael i ganiatáu i'r ysgol ddarparu ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion oed cynradd.

## **Galw am leoedd cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Gynradd Radur**

Mae dalgylch Ysgol Gynradd Radur yn disgyn yn gyfan gwbl o fewn ward Radur a Phentre-poeth, ac yn gwasanaethu rhan ohoni. Hefyd gwasanaethir ward Radur a Phentre-poeth gan Ysgol Gynradd Bryn Deri.

Mae dalgylch Ysgol Gynradd Radur yn gorwedd o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Radur. Mae'r galw a ragwelir am leoedd mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn amrywio ym mhob un o ddalgylchoedd yr ysgolion cynradd o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd, fodd bynnag, mae'r galw cyfunol ar lefel uchel.

## **Galw diweddar am leoedd**

Mae twf yn y boblogaeth cyn-ysgol wedi bod yn amlwg yn y blynyddoedd diwethaf yn ardal Radur a Phentre-poeth.

Cadarnha data cyfrifiad ysgol (CYBLD) bod nifer y disgyblion sy'n mynychu lleoedd Derbyn cyfrwng Saesneg mewn unrhyw ysgol ac sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Bryn Deri, yn uwch na 30 o leoedd i 8 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2013 a 4 disgybl ym mis Ionawr 2014.

Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu lleoedd Derbyn cyfrwng Saesneg sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Radur yn fwy na 45 o leoedd o 10 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2014, a 2 ddisgybl ym mis Ionawr 2015. Awgryma dadansoddiad data cychwynnol bod nifer y disgyblion sy'n mynychu dosbarth Derbyn mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg hefyd yn uwch na 45 ym mis Ionawr 2016 o 26 disgybl.

Ym mis Medi 2012, er mwyn cynorthwyo i gwrdd â'r galw am leoedd yn yr ardal leol, cytunodd y Cyngor â Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Radur i ganiatáu derbyn

hyd at 15 o ddisgyblion ychwanegol i'r ysgol, gan ddefnyddio llety dros ben yn yr ysgol.

Er mwyn parhau i gynnwys disgyblion yn Radur a Phentre-poeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol, ac i atal ymgeiswyr hwyr rhag methu â chael lle mewn ysgol leol mewn ysgolion cyfagos, mae'r Cyngor wedi caniatáu derbyn hyd at 60 o ddisgyblion ar fynediad i'r dosbarth Derbyn yn y derbyniadau olynol ers Medi 2012.

Nodir isod y galw cyfunol am leoedd ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Bryn Deri a Radur, a'r manteisio ar leoedd yn y ddwy ysgol, yn y blynyddoedd diwethaf:

<b>Tabl 4: Disgyblion sydd wedi cofrestru yn y dosbarth Derbyn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg</b>					
	<b>Dalgylch Ysgol Gynradd:</b>			<b>Disgyblion a dderbynnir i'r ysgol</b>	
Blwyddyn academaidd	<b>Ysgol Gynradd Bryn Deri</b>	<b>Ysgol Gynradd Radur</b>	<b>Dalgylch cyfunol Ysgol Gynradd Bryn Deri ac Ysgol Gynradd Radur</b>	<b>Ysgol Gynradd Bryn Deri</b>	<b>Ysgol Gynradd Radur</b>
2011/ 2012	26	29	55	30	38
2012/ 2013	38	39	77	30	60
2013/ 2014	34	55	89	30	60
2014/ 2015	28	47	75	30	56
2015/ 2016	25	71	96	30	60

## Trefniant Dosbarthiadau Ysgol

Disgwylir i ysgolion sydd bron yn llawn neu'n llawn ac sydd hefyd â Nifer Derbyn Cyhoeddedig nad yw'n lluosrif o 30 o ddisgyblion weithredu dosbarthiadau oedran cymysg. Yn achos Ysgol Gynradd Radur, roedd y Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 45 yn darparu cydbwysedd addas gyda'r galw am leoedd yn yr ardal am nifer o flynyddoedd, a bu'n bosibl i'r ysgol gydbwyso niferoedd y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn gyda grwpiau blwyddyn eraill, er mwyn gweithredu fel ysgol 1.5 DM.

Wedi derbyn 60 o ddisgyblion ym mis Medi 2012 i ddiwallu'r galw am leoedd nad oedd modd eu cynnwys mewn mannau eraill, a chyda galw am leoedd wedi aros ar lefel uchel, gofynnodd y Cyngor i'r ysgol dderbyn mwy na 45 o ddisgyblion bob blwyddyn ers hynny, ac ni fu'n bosibl i'r ysgol ddychwelyd i'r trefniant 1.5 DM.

O ganlyniad i hyn, byddai'r ysgol angen ystafell ddosbarth ychwanegol ar gyfer Medi 2017 er mwyn i'r Cyngor gydymffurfio â derbyn disgyblion hyd at y Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 45 o leoedd.

Byddai darparu ystafell ddosbarth ychwanegol yn arwain at ehangu eiddo'r ysgol, a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol o 25% o leiaf, gan arwain at newid sylweddol (a elwir yn "newidiadau rheoleiddiedig") y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion ar eu cyfer (Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013).

## Galw yn y dyfodol

Dengys y galw a ragwelir yn seiliedig ar ddata GIG a dderbyniwyd yn 2015 bod nifer y disgyblion cymunedol cyfrwng Saesneg sy'n mynd i ddosbarth Derbyn yn parhau i fod ar lefelau uchel tan o leiaf Medi 2018, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael.

**Tabl 5 : Galw yn y dyfodol am leoedd mewn dosbarthiadau Derbyn ysgolion cymuned cyfrwng Saesneg**

	<b>Dalgylch Ysgol Gynradd:</b>		
Blwyddyn academaidd	<b>Bryn Deri</b>	<b>Radur</b>	<b>Dalgylch cyfunol Bryn Deri a Radur</b>
2016/ 2017	34	69	103
2017/ 2018	37	54	91
2018/ 2019	30	80	110

Mae'r amcanestyniadau uchod yn cymryd i ystyriaeth Gymhareb Goroesi Carfan bositif yn yr ardal, sy'n arwydd o ddisgyblion yn symud i'r ardal yn y blynyddoedd rhwng 0-4 oed. Mae'r gymhareb hon yn amlwg yn niweddariad data poblogaeth blynyddol y GIG ar gyfer dalgylchoedd Bryn Deri a Radur.

Mae'r galw a ragwelir am leoedd ysgol yn ystyried y data a ddarparwyd gan y GIG a'r nifer diweddar sy'n manteisio ar leoedd. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o nifer o safleoedd a gymeradwywyd ar gyfer tai a/neu sydd dan ystyriaeth gan ddatblygwyr tai, a fyddent, petaent yn symud ymlaen, yn cynyddu'r galw am leoedd mewn ysgolion yn yr ardal leol.

Tra disgwylir i unrhyw dai ychwanegol, os cytunir i'w datblygu, gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg, gallai unrhyw dai newydd yn yr ardal greu galw ychwanegol am leoedd mewn ysgolion, yn ychwanegol at yr hyn a oedd yn rhan o'r amcanestyniadau, o leiaf yn y tymor byr. Petai hyn yn digwydd, byddai angen ystyried sut y gellid bodloni'r galw hwn.

## Opsiynau eraill

Fel y nodwyd yn nhablau 4 a 5, mae'r galw am lefydd mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn ardal Radur a Phentre-Poeth wedi bod yn fwy yn nalgylch Ysgol Gynradd Radur nag yn nalgylch Ysgol Gynradd Bryn Deri dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae disgwyl i hyn barhau.

Ar ôl darparu llety ychwanegol yn Ysgol Gynradd Radur i sefydlu meithrinfa yn 2013, byddai'r ysgol angen un dosbarth ychwanegol i'w galluogi i weithredu dau ddosbarth mynediad (60 o lefydd fesul grŵp blwyddyn). Byddai opsiwn arall, sef ehangu Ysgol Gynradd Bryn Deri i ganiatáu nifer derbyn o 45 o lefydd, yn gofyn am bedwar dosbarth pellach. Felly, ystyrir mai ehangu Ysgol Gynradd Radur yw'r opsiwn sydd fwyaf cost-effeithiol, o'i gymharu ag ehangu Ysgol Gynradd Bryn Deri.

Mae dalgylchoedd Ysgol Gynradd Radur ac Ysgol Gynradd Bryn Deri yn cael eu ffinio gan rai'r ysgolion cynradd canlynol:

- Ysgol Gynradd Coryton, Yr Eglwys Newydd
- Ysgol Gynradd Danescourt, Llandaf
- Ysgol Gynradd Hawthorn, Ystum Taf
- Ysgol Gynradd Pentyrch, Pentyrch
- Ysgol Gynradd Peter Lea, Y Tyllgoed
- Ysgol Gynradd Tongwynlais
- Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth

Mae nifer y lleoedd sydd ar gael yn ysgolion cynradd Coryton, Hawthorn, Pentyrch a Thongwynlais a'r galw am leoedd ym mhob un o'r dalgylchoedd hyn yn fras yn cydbwysu â'r lleoedd sydd ar gael ym mhob ysgol.

Mae Coryton, Hawthorn a Thongwynlais yn ddaearyddol bell o Radur a Phentre-poeth, o ran pellter cerdded diogel o'r cartref i'r ysgol. Nid oes llwybr cerdded diogel rhwng Radur/ Pentre-poeth a Phentyrch.

Tra bod Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth o fewn pellter cerdded rhesymol<sup>1</sup> i rannau o Bentre-poeth, mae'r galw am leoedd yn yr ysgol o fewn ei dalgylch hefyd yn cydbwysu'n fras â'r lleoedd sydd ar gael.

Mae Ysgol Gynradd Peter Lea yn agos at rai rhannau o ddalgylch Ysgol Gynradd Radur. Fodd bynnag, mae'r ysgol hon yn dod o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Cantonian. Mae'r galw am leoedd yn nhair ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg dalgylch Cantonian (sef y Tyllgoed, Pentre-baen a Peter Lea) yn fras yn cydbwysu â'r lleoedd sydd ar gael yn y dalgylchoedd hyn wedi'u cyfuno.

Felly ni fyddai newidiadau i ddalgylchoedd yr ysgolion uchod ac Ysgol Gynradd Radur ac Ysgol Gynradd Bryn Deri yn rhoi ateb cynaliadwy i sicrhau cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ar draws yr ardal ehangach.

Mae Ysgol Gynradd Danescourt yn dod o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Radur, o fewn pellter cerdded o rannau o ddalgylch Ysgol Gynradd Radur, ac mae ynddi leoedd dros ben mewn cymhariaeth â'r galw o fewn ei dalgylch.

<b>Tabl 6: Galw yn y dyfodol am leoedd mewn dosbarthiadau Derbyn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg</b>					
	<b>Dalgylch Ysgol Gynradd:</b>				
Blwyddyn academaidd	<b>Bryn Deri</b>	<b>Radur</b>	<b>Dalgylch cyfunol Bryn Deri a Radur</b>	<b>Danescourt</b>	<b>Dalgylch cyfunol Bryn Deri, Radur, Danescourt</b>
2016/ 2017	34	69	103	21	124
2017/ 2018	37	54	91	24	115
2018/ 2019	30	80	110	26	136

Dengys yr amcanestyniadau y gallai fod yn bosibl felly darparu cydbwysedd cyffredinol yn y cyflenwad cyffredinol a'r galw am leoedd ar draws dalgylchoedd ysgolion cynradd Bryn Deri, Radur a Danescourt.

Fodd bynnag, mae dosbarthiad plant yn dalgylch Ysgol Gynradd Radur yn golygu:



- bod y mwyafrif o ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Radur fwy na 2 filltir o Ysgol Gynradd Danescourt.
- bod cyfran fawr o ddisgyblion yn byw i'r gogledd o safle Ysgol Gynradd Radur, ac felly byddent yn mynd heibio'r ysgol er mwyn teithio i Ysgol Gynradd Danescourt,
- bod cyfran fawr o ddisgyblion yn byw ar ddatblygiad 'seidins Radur' ac y byddai angen iddynt, yn seiliedig ar lwybrau cerdded diogel presennol, deithio mwy na dwy filltir i Ysgol Gynradd Danescourt.

Hefyd mae Ysgol Gynradd Danescourt wedi bod yn llawn ar fynediad yn y blynyddoedd diwethaf. Ar fynediad ym mis Medi 2016, dyrannwyd pob un o'r 60 o leoedd oedd ar gael yn Ysgol Gynradd Danescourt ac roedd y lle olaf a gynigiwyd, ar sail agosrwydd at yr ysgol, yn agosach at yr ysgol (1.227 milltir) na disgyblion sy'n byw ar stad seidins Radur.

Awgryma hyn mewn blynyddoedd i ddod, pe na chymerid unrhyw gamau i sicrhau cydbwysedd rhwng dalgylchoedd, y byddai'r disgyblion hynny yn nalgylch Radur y gwrthodir lle iddynt yn yr ysgol hefyd yn annhebygol o gael eu derbyn i Ysgol Gynradd Danescourt.

I grynhoi, ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn debygol o ddarparu digon o leoedd i ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Radur gael eu cynnwys mewn ysgolion o fewn dwy filltir o'r ysgol.

Yn ogystal, ni fyddai gweithredu'r opsiwn hwn ychwaith yn caniatáu i'r Cyngor gydymffurfio â'r trefniadau derbyn a gyhoeddwyd ym Medi 2017, h.y. rhoi mynediad i leiafswm o 45 o ddisgyblion, petai digon o ymgeiswyr llwyddiannus.

(<sup>1</sup> Mae pellter cerdded rhesymol yn llai na dwy filltir, gyda'r ffigwr hwn wedi'i sefydlu fel y terfyn ble y darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant Cartref i'r Ysgol y Cyngor).

## **Sut effeithir ar ysgolion eraill**

Yn dilyn gweithredu'r cynnig hwn, y cyfanswm o leoedd a fyddai ar gael ar fynediad i'r oedran Derbyn yn y ddwy ysgol gynradd yw 90 (30 yn Ysgol Gynradd Bryn Deri a 60 yn Ysgol Gynradd Radur). Mae hyn yn cymharu â'r trefniadau presennol, lle mae'r Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer pob ysgol yn galluogi derbyn hyd at 75 o ddisgyblion (30 yn Ysgol Gynradd Bryn Deri a 45 yn Ysgol Gynradd Radur); fodd bynnag, oherwydd y galw lleol am leoedd, mae Ysgol Gynradd Radur wedi derbyn 60 o ddisgyblion ar fynediad ym mhob blwyddyn ers mis Medi 2012.

Byddai'r cynnig, sy'n cynyddu capasiti cyfunol y ddwy ysgol, yn parhau trefniant sydd wedi gweithredu ar sail dros dro dros bum mlynedd o dderbyn.

## **Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg**

Disgwylir i ehangu parhaol Ysgol Gynradd Radur ar 2 ddosbarth mynediad gyd-fynd yn agosach â'r galw yn y dyfodol am leoedd yn yr ysgol o fewn dalgylch yr ysgol. Mae'r estyniad arfaethedig yn parhau trefniadau a fu ar waith ers 2012, nad ydynt wedi cael effaith negyddol ar ysgolion lleol.

Byddai ehangu'r capasiti i'r maint hwn yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn y nifer o ddisgyblion y gellir eu derbyn o'i gymharu â'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig, ond ni ddisgwylir i hyn ddadleoli disgyblion o ysgolion eraill.

Mae mwyafrif y disgyblion a dderbyniwyd i Ysgol Gynradd Deri Bryn ac Ysgol Gynradd Radur yn y blynyddoedd diwethaf yn byw yn nalgylch yr ysgolion hyn. Awgryma amcanestyniadau yn seiliedig ar ddata poblogaeth disgyblion cyn-ysgol y byddai hyn yn parhau, ac mai ychydig o leoedd dros ben fyddai ar gael.

Rhagwelir felly na fyddai'r estyniad arfaethedig i Ysgol Gynradd Radur i 2 ddosbarth mynediad yn cael fawr ddim effaith ar y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill yn yr ardal leol.

## **Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg**

Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal, Ysgol Coed-Y-Gof ac Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth, wedi aros ar lefelau uchel ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r boblogaeth ar draws y ddinas a'r boblogaeth yn ardal Radur a Phentre-poeth wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd wedi tyfu. Bu Ysgol Coed-Y-Gof ac Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn llawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, gall y ddwy ysgol gynnwys plant o ddalgylchoedd eraill.

Ar draws y ddinas, ychydig o leoedd cyfrwng Cymraeg dros ben a fu ar gael ar gyfer mynediad i'r flwyddyn Derbyn. Dim ond 3 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg arall oedd â mwy na 4 o leoedd dros ben ar fynediad i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015, sef Ysgol Y Berllan Deg yn Llanedern (6 lle) Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn Lecwydd, (7 lle) ac Ysgol Gymraeg Pen Y Groes (16 o leoedd).

Rhagwelir felly na fyddai'r estyniad arfaethedig i Ysgol Gynradd Radur i 2 ddosbarth mynediad yn cael fawr ddim effaith ar y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol.

## **Ysgolion cynradd seiliedig ar ffydd**

Er nad oes darpariaeth ysgolion cynradd yn seiliedig ar ffydd yn ardal Radur a Phentre-poeth, mae rhai disgyblion o'r ardal yn mynychu ysgolion cynradd sy'n seiliedig ar ffydd mewn ardaloedd eraill.

Dengys y data ysgol diweddaraf yn 2015 y mynychodd dau ddisgybl o Radur a Phentre-poeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf a mynychodd un disgybl Ysgol Gynradd Crist y Brenin, Llanisien.

Cyrff Llywodraethu yr ysgolion unigol sy'n pennu derbyniadau i'r ysgolion hyn. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf wedi bod yn llawn ar fynediad i'r dosbarth Derbyn ers nifer o flynyddoedd, ac mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Gynradd Crist y Brenin wedi aros ar lefelau uchel. Disgwylir i hyn barhau yn y dyfodol ac nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar hyn.

Dengys Tabl 7 isod y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ac ysgolion mewn ardaloedd cyfagos, a'r nifer arfaethedig o ddisgyblion ar y gofrestr petai'r cynnig yn symud ymlaen fel y disgrifiwyd.

Tabl 7: Niferoedd diweddar ac amcanestyniadau ar gofrestr ysgolion cynradd lleol petai'r cynnig yn symud ymlaen fel y disgrifiwyd

Ysgol	A oes disgwyl i'r ysgol hon gael ei heffeithio	Ionawr 2011	Ionawr 2012	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Ionawr 2016	amcanestyniad 2016/2017	amcanestyniad 2017/2018	amcanestyniad 2018/2019	amcanestyniad 2019/2020	amcanestyniad 2020/2021
Ysgol Gynradd Radur – pe na bai'r cynnig yn symud ymlaen	Oes	310	327	342	350	365	369	383	384	385	370	354
Ysgol Gynradd Radur – petai'r cynnig yn symud ymlaen	Oes	310	327	342	350	365	369	383	399	415	415	414
Ysgol Gynradd Bryn Deri	Na	204	201	192	192	196	204	201	207	206	205	204
Ysgol Gynradd Creigiau	Na	333	342	342	357	365	367	370	371	377	380	386
Ysgol Gynradd Danescourt	Na	282	270	264	303	319	345	355	367	377	386	381
Ysgol Gynradd Y Tyllgoed	Na	216	205	201	211	205	216	215	209	203	198	194
Ysgol Gynradd	Na	93	95	97	98	108	106	111	113	111	106	104

Gatholig y Teulu Sanctaidd												
Ysgol Gynradd yr E yng Ngh Llandaf	Na	422	422	422	417	421	420	420	420	420	420	420
Ysgol Gynradd Pentre-baen	Na	133	133	144	155	164	181	195	223	232	241	258
Ysgol Gynradd Pentyrch	Na	130	125	111	113	122	133	130	136	134	133	131
Ysgol Gynradd Peter Lea	Na	254	267	283	303	311	320	318	320	321	314	310
Ysgol Gynradd Tongwynlais	Na	126	135	154	162	180	186	191	193	194	193	192
Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof	Na	354	370	377	373	351	352	366	379	395	403	414
Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth	Na	192	190	214	226	228	225	239	249	255	259	262
Ysgol Pencae	Na	208	207	206	201	207	208	211	210	210	210	210

Mae'r amcanestyniadau ar gyfer pob un o'r ysgolion uchod, ac eithrio Ysgol Gynradd Radur, yn cynrychioli'r amcanestyniadau pe na bai'r cynigion yn bwrw ymlaen, a hefyd pe bai'r cynigion yn bwrw ymlaen. Gallai'r disgyblion hynny na chawsant fynediad i ysgolion oherwydd eu bod yn rhy llawn ddewis mynychu ysgolion eraill cyfrwng Saesneg, cyfrwng Gymraeg, Ffydd, ysgolion preifat neu ysgolion y tu allan i Gaerdydd, ac er mwyn eglurder nid ydynt wedi eu hychwanegu at y Nifer ar y Gofrestr mewn ysgolion eraill.

Nid yw'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar ddata cofrestru gwirioneddol gyda meddyg teulu y tu hwnt i 2018 ar gael eto, ac felly mae'n anodd asesu effaith hirdymor ar ysgolion; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd sy'n awgrymu gostyngiad yn y galw cyffredinol am leoedd ysgol.

## Sut effeithir ar y ddarpariaeth feithrin?

Mae gan blant yng Nghaerdydd hawl i gael lle meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac mae'n rhaid iddynt fynychu am o leiaf bum hanner diwrnod. Nid yw lleoedd meithrin yn cael eu dyrannu ar sail dalgylch. Caiff lleoedd eu cynnig mewn ysgol feithrin gymunedol neu ddosbarth meithrin lleol o fewn dwy filltir i gartref y plentyn. Os nad oes lle mewn ysgol feithrin gymunedol neu ddosbarth meithrin lleol, gall rhieni wneud cais am gyllid ar gyfer lle

addysg feithrin gyda darparwr cymeradwy a ddynodwyd gan Grŵp Llywio Plentynodod Cynnar Caerdydd.

Sefydlwyd uned feithrin yn Ysgol Gynradd Radur yn 2013 ac ar hyn o bryd mae'n darparu 48 o leoedd rhan-amser (24 y bore a 24 y prynhawn). Mae sgôp ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd a ddarperir o fewn y llety presennol. Bydd y galw am leoedd meithrin yn yr ysgol yn parhau i gael ei adolygu.

Er y byddai ychwanegu lleoedd meithrin yn golygu y byddai llai o leoedd, o bosibl, yn cael eu prynu yn y sector gofal plant preifat a gwirfoddol, mae llawer hefyd yn darparu lleoedd cofleidiol a gallai'r cyfleoedd ar gyfer hyn gynyddu gyda mwy o deuluoedd yn defnyddio'r ddarpariaeth sy'n ei lle ar gyfer sesiynau rhan-amser.

Rhaid nodi nad yw cael mynediad i le meithrin mewn ysgol yn gwarantu lle yn y dosbarth Derbyn, ac mae'n amodol ar broses o dderbyn cyfnod cynradd sydd ar wahân.

## **Ansawdd a Safonau**

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'r ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod arweinyddiaeth a llywodraethu yn gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi'r broses o wella ysgolion.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn derbyn ei gyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol y De (CSCJES) ym Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu'r Consortiwm i gefnogi a herio ysgolion yng Nghaerdydd.

Wrth gynnig newidiadau o'r math hwn i ysgolion mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol gyfeirio at yr adroddiadau mwyaf diweddar gan Estyn, tystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad, ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael am effeithiolrwydd yr ysgol.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ddangos effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- canlyniadau (safonau a lles)
- darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, cymorth ac arweiniad gofal, ac amgylchedd dysgu)
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)



## Estyn

Mae ysgolion yn cael eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol, ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella i ysgolion.

Ar gyfer arolygiadau Estyn a gynhaliwyd ers mis Medi 2010, cyflwynwyd fframwaith arolygu cyffredin ac mae arolygiadau Estyn a gynhaliwyd ers mis Medi 2010 yn rhoi barn yn erbyn tri Chwestiwn Allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Mae dyfarniad ynghlwm wrth bob cwestiwn allweddol:

- Rhagorol - llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
- Da - llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
- Digonol - cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
- Anfoddhaol - meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon ar gyfer gwella.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Radur ddiwethaf ym mis Mehefin 2011. Barnwyd bod perfformiad yr ysgol yn dda, gyda rhagolygon ar gyfer gwella yn cael eu barnu'n ddigonol.

Ym mis Hydref 2012, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da a chafodd ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae Estyn angen eu monitro.

## Categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru

Yn 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd a oedd yn ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu'r ysgol i wella gyda golwg ar ddeall faint o gymorth y mae angen i sefydliadau megis CSCJES ei ddarparu i bob ysgol fel bod pob un yn gallu cyflawni ei thargedau.

Disgrifir y system gategoreiddio isod:

Categori cefnogaeth	Beth y mae'r categori yn ei olygu
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddi eu gwella.
Oren	Ysgol lle mae angen gwella ac sydd angen cymorth i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu gymorth i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach.
Coch	Ysgol sydd angen ei gwella fwyaf ac a fydd yn derbyn cefnogaeth ddwys ar unwaith.

Er mwyn penderfynu ar y categori cod lliw fel yr esbonnir hynny yn y tabl uchod, mae ysgolion yn cael eu rhoi mewn un o bedwar grŵp ar gyfer safonau (1-4) ac ar gyfer ysgogi gwelliant (A-D), lle mae'r sgôr uchaf ar gyfer safonau yn un, ac A yr uchaf ar gyfer capasiti i wella. Cyhoeddir categorreiddio wedi'i ddiweddarau bob blwyddyn ym mis Ionawr.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru categori Melyn i'r ysgol.

Ysgol	Gradd Safonau	Gallu i Wella	Categori cefnogaeth
Ysgol Gynradd Radur	1	B	Melyn

Am ragor o wybodaeth am y cynllun categorreiddio newydd, gweler canllaw Llywodraeth Cymru i'r System Genedlaethol o Gategoreiddio Ysgolion ar gyfer rhieni:

<http://gov.Cymru/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy-v2.pdf>

Dengys Tabl 8 isod/drosodd beth yw barn Estyn, ei argymhellion, categori LIC a'r data Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ysgol Gynradd Radur (Arolygiad Estyn Mehefin 2011).

Tabl 8: Barn ac argymhellion Estyn, Categori LIC, data CS & CA 2	
<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant</b>	<b>Digonol</b>
<b>Cwestiynau Allweddol</b>	<b>Barn</b>
<b>Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?</b>	<b>Da</b>
Safonau	Da
Lles	Da
<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
Profiadau dysgu	Digonol
Addysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Yr amgylchedd dysgu	Da
<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
Arweinyddiaeth	Digonol

Gwella ansawdd	Digonol
Gweithio mewn partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da
<b>Argymhellion</b>	
A1	Parhau i ganolbwyntio ar godi safonau cyflawniad i bob disgybl
A2	Gwella'r broses o gynllunio sgiliau allweddol er mwyn sicrhau cydlynad, dilyniant a datblygiad ar draws yr ysgol
A3	Gwella cynllunio athrawon i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion
A4	Egluro rolau a chyfrifoldebau arweinwyr ysgolion ar bob lefel i wella cynllunio datblygiad
A5	Gwella'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni neu warcheidwaid
<b>Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru</b>	
*Disgyblion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig ym meysydd dysgu CS (2015)	95%
* Disgyblion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig ym meysydd dysgu CA2 (2015)	96.4%
*Presenoldeb (2015)	96.7%

\* gellir cael gwybodaeth bellach ar y wefan: [mylocalschool.Cymru.gov.uk/index.html?iaith=cym](http://mylocalschool.Cymru.gov.uk/index.html?iaith=cym)

## Safonau

Mae gan y Cyngor bolisiau ar waith i wella ysgolion e.e. 'Cyrhaeddiad Uchel i Bawb' a hefyd 'Cyrhaeddiad ar gyfer Cynhwysiant'. Mae'n gweithio ar ymateb i egwyddorion allweddol y 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion' er mwyn sicrhau gwell canlyniadau dysgu a lles i bob plentyn.

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar ansawdd safonau addysg na chyflenwad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Gynradd Radur o ganlyniad i'r cynnig hwn.

## Darpariaeth

Byddai'r cynnig yn darparu'n briodol ar gyfer y galw am leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn ardaloedd Radur a Phentre-poeth.

## Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr Ysgol Gynradd Radur i sicrhau dull trylwyr ar draws yr ysgol gyfan o ran cynllunio gwelliannau a sicrhau perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill i gyrraedd y nod fel bod y disgyblion yn derbyn addysg o ansawdd uchel.

Byddai cynllunio gofalus yn digwydd yn ystod y cyfnod arfaethedig o newid er mwyn osgoi unrhyw berygl o darfu ar arweinyddiaeth a llywodraethu, a allai effeithio ar ganlyniadau addysgol.

## Sut fyddai Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a darpariaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) yn cael eu heffeithio?

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sydd angen darpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn wynebu anhawster sy'n sylweddol fwy wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn gyffredinol yn eu darparu ar gyfer plant.

Dengys Tabl 9 isod y ganran o AAA, prydau ysgol am ddim (FSM), Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig yn Ysgol Gynradd Radur.

<b>Tabl 9: Gwybodaeth AAA, FSM, SIY, a Lleiafrifoedd Ethnig</b>				
<b>2015</b>		<b>Ysgol Gynradd Radur</b>	<b>ALI</b>	<b>Cymru</b>
Canran disgyblion AAA	Gweithredu gan yr Ysgol	11.3%	16.1%	15.1%
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy		6%	8.3%
	Disgyblion datganiad â		1.8%	1.7%
Canran disgyblion FSM – cyfartaledd 3 blynedd	<b>amh.</b>	3.7%	23.4%	20.1%
Canran disgyblion SIY	<b>am.</b>	2.9%	21.1%	5.9%
Canran disgyblion lleiafrifoedd ethnig	<b>am.</b>	16.5%	32.9%	10.6%

\* gellir cael gwybodaeth bellach ar y wefan: [mylocalschool.Cymru.gov.uk/index.html?iaith=cym](http://mylocalschool.Cymru.gov.uk/index.html?iaith=cym).

Mae ysgolion yng Nghaerdydd yn derbyn cyllid dirprwyedig i'w galluogi i roi cymorth ychwanegol ac ymyriadau â ffocws i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Dosberthir y rhan fwyaf o'r cyllid drwy fformiwla sy'n rhagweld lefel gyffredinol yr anghenion digwyddiadau uchel ym mhob ysgol yng Nghaerdydd. Mae ysgolion yn defnyddio'r Cyllid Fformiwla AAA i ddarparu ystod o ymyriadau â ffocws i ddisgyblion sydd ag anghenion ar lefel 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy'.

Yn ogystal â'r Cyllid Fformiwla, gall ysgolion dderbyn 'Gwella Anghenion Cymhleth' i'w galluogi i gefnogi plant a enwir sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae disgyblion sydd â'r lefel hon o angen fel arfer â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu CIDPEY (Cynllun Datblygu Unigol Caerdydd ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar), sy'n nodi cryfderau ac anawsterau'r plentyn, ac yn darparu gwybodaeth glir am sut y bydd dysgu'r plentyn yn cael ei gefnogi yn yr ysgol.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth AAA yn yr ysgolion, a byddai'r ysgolion yn parhau i gefnogi disgyblion AAA. Fodd bynnag, byddai angen ystyried sut y byddai unrhyw waith ad-drefnu ar adeiladau yn hwyluso'r angen parhaus hwn.

Nid oes gwybodaeth ar gael ychwaith sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth i unrhyw grŵp, gan gynnwys y rhai sydd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a byddai'r ysgolion yn parhau i ddarparu cefnogaeth fel y bo'n briodol yn unol ag anghenion unigol bob disgybl.

## **Beth yw manteision y cynnig?**

Mae'r Cyngor yn amcanu at wella digonolrwydd ac addasrwydd lleoedd ysgol ledled Caerdydd. Byddai'r cynnig yn cyfrannu tuag at y nod hwn.

Disgwylir gweld y manteision canlynol o ganlyniad i'r cynnig hwn:

- Sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal leol.
- Wrth dynnu cymhariaeth gydag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd 2DM yn caniatáu mwy o hyblygrwydd a chyfle i ddisgyblion yn seiliedig ar fwy o adnoddau ariannol, a rhai cadarnach a mwy diogel.
- Gall ysgol 2DM ddarparu mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- Byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chefnogol yn caniatáu i ysgol 2DM gynnwys ystod ehangach o arbenigedd cwricwlwm.

## **Anfanteision posibl y cynnig**

Gallai'r cynnig arwain at fwy o dagfeydd traffig yng nghyffiniau'r ysgolion ar adegau danfon/casglu plant. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw anhwylustod.

Gall newidiadau i adeiladau a chodi adeiladau newydd achosi peth aflonyddwch er bod profiad yn dangos bod modd cyfyngu'n llym ar hyn ac nad yw addysg y plant yn dioddef.

## **Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig**

Mae risg na fydd y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion sy'n dechrau yn y dosbarth Derbyn yn cael ei wireddu. Er bod hyn yn ymddangos yn annhebygol,



bydd y Cyngor yn cadw golwg ar ei amcanestyniadau, ac yn ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw yn unol â hynny.

Mae posibilrwydd y bydd cyfyngiadau datblygu nad ydynt yn amlwg ar hyn o bryd ac y bydd goblygiadau cost ac oedi ynghlwm wrth y rhain.

## **Mynediad a threfniadau dalgylchoedd**

Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i ddalgylchoedd fel rhan o'r cynnig hwn.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Ceir gwybodaeth fanwl am y trefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor, a hefyd gellir gweld y wybodaeth hon ar wefan y Cyngor ([www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk)).

Byddai'r Cyngor yn gweithredu'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r Ysgol drwy awdurdodi derbyn disgyblion yn unol â'i feini prawf cyhoeddedig.

## **Sut effeithir ar ddalgylchoedd/ysgolion uwchradd?**

Ar y pwynt o ehangu, byddai Ysgol Gynradd Radur yn nalgylch presennol Ysgol Gyfun Radur.

Byddai cynigion ar wahân yn cael eu cyflwyno mewn da bryd er mwyn sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Saesneg o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Radur os oes angen.

## **Materion ariannol**

Byddai unrhyw ehangu o Ysgol Gynradd Radur angen buddsoddiad yn yr ysgol. Byddai angen ariannu'r buddsoddiad hwn drwy raglen gyfalaf y Cyngor, a fydd yn cael ei phenderfynu erbyn diwedd mis Chwefror 2017.

Byddai'r costau refeniw ychwanegol o'r cynnydd mewn nifer disgyblion o fis Medi 2017 ymlaen yn cael eu diwallu trwy fformiwla ariannu ysgolion sy'n dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer ysgolion ar sail nifer y disgyblion.

## **Materion adnoddau dynol**

Byddai Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Radur i baratoi ar gyfer ei hehangu'n barhaol (yn amodol ar gymeradwyaeth). Yn unol â'r Fframwaith Adnoddau Dynol Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (CTY), bydd y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth yn cael eu hannog i gynnal adolygiad o'u strwythur staffio i sicrhau ei fod yn ddigonol ar gyfer ehangu wrth i'r nifer ar y gofrestr gynyddu. Cydbwysir hyn yn erbyn cyllideb ragamcanol yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai ehangu parhaol yr ysgol yn arwain at swyddi parhaol ychwanegol.

Hefyd byddai Gwasanaethau Pobl AD yn darparu cymorth recriwtio yn unol â Pholisi Diswyddo ac Adleoli'r Cyngor, y mae'r Corff Llywodraethu wedi ei fabwysiadu. Mae hyn yn golygu y byddai unrhyw swyddi newydd sy'n codi o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd ar y gofrestr yn darparu cyfleoedd i staff ar y gofrestr adleoli ysgol.

## **Materion cludiant**

Comisiynwyd Asesiad Traffig a Thrafnidiaeth a bydd unrhyw oblygiadau sy'n deillio o hyn yn cael eu hystyried pan fydd penderfyniad ar p'un a ddylid symud ymlaen â'r cynnig yn cael ei gymryd gan Gabinet y Cyngor. Byddai unrhyw gostau a nodir drwy'r asesiad traffig sy'n benodol i'r disgyblion ychwanegol sy'n mynychu Ysgol Gynradd Radur yn hytrach nag i gynnydd yn y boblogaeth yn gyffredinol yn yr ardal yn cael eu diwallu o'r gyllideb Addysg.

## **Trefniadau teithio dysgwyr**

O dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant yn ôl ac ymlaen o ysgolion. Byddai unrhyw ddisgyblion yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn o ganlyniad i ddalgylchoedd yn cael cynnig yr un cymorth cludiant ag a ddarperir drwy Gaerdydd a chan ddilyn y meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor ([www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk)).

## **Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg**

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae addysgu Cymraeg mewn lleoliad cyfrwng Saesneg yn destun i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fyddai hyn yn newid gydag ehangu'r ysgol.

Nid yw'r cynnig yn ceisio newid y nifer o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal.

Mae swyddogion yn monitro cyfraddau geni, y cynnyrch o dai arfaethedig a'r patrymau manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr oedran cynradd ac uwchradd, gyda golwg ar gyflwyno cynlluniau priodol i ateb unrhyw alw cynyddol.

## **Materion cydraddoldeb**

Cynhaliwyd Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Daeth hwn i'r casgliad na fyddai'r cynigion hyn yn cael effaith andwyol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu yn dilyn ymgynghori. Petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, cynhelir asesiad effaith cydraddoldeb pellach, gan gynnwys asesiad ar ddyluniad unrhyw adeiladau newydd neu ar addasu/ailwampio adeilad presennol

## **Materion cynladwyedd**

Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS/SEA) ar y cynnig yn unol â Deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r asesiad yn cadarnhau bod y bwriad yn gydnaws ag

amcanion amgylcheddol a nodir yn Asesiad Amgylcheddol Strategol adroddiad Caerdydd, 21<sup>ain</sup> Ganrif: Fframwaith Strategol ar gyfer Rhaglen Gwella Adeiladau Ysgolion. Os aiff y cynnig yn ei flaen, byddai asesiad amgylcheddol yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses cais cynllunio.

## Ystyried effaith gymunedol

Mae angen cynyddu'r nifer o leoedd cymunedol cyfrwng Saesneg heb i hynny gael effaith andwyol ar y gymuned. Cymerir y canlynol i ystyriaeth wrth ystyried cynnig: Mannau Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol er mwyn sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae'r ysgol sy'n destun i'r cynnig hwn yn cynnig ystod o weithgareddau ar ôl ysgol ac efallai bod rhai mudiadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau yn adeiladau'r ysgolion. Ni ragwelir y byddai effaith negyddol ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, ac mae'r holl opsiynau yn caniatáu ar gyfer gwneud defnydd cymunedol o gyfleusterau ychwanegol.

## Y camau nesaf, sut i fynegi eich barn a ffurflen adborth

### Beth sy'n digwydd nesaf?

#### Dyddiadau allweddol

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gasglu a'i grynhoi, a chyflwynir adroddiad i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael copïau drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae nifer o gamau pellach y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn iddo wneud penderfyniad terfynol.

Gweler y camau hyn isod yn Nhabl 9:

<b>Tabl 9: Camau pellach</b>	
<b>Proses Statudol</b>	<b>Amserlen</b>
Cyfnod ymgynghori	10 Hydref – 21 Tachwedd 2016
Adroddiad ymgynghori yn cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor	Ionawr 2017
Yn amodol ar gymeradwyaeth, cyhoeddi hysbysiad statudol pryd y gellir gwneud gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol	Chwefror 2017
Penderfyniad gan Gabinet y Cyngor	I gael ei gadarnhau
Adroddiad Gwrthwynebiadau'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	I gael ei gadarnhau

Gall yr amserlen arfaethedig hon newid.

### **Cyfnod ymgynghori**

Mae'r cyfnod ymgynghori ar y cynigion hyn yn dechrau ar 10 Hydref ac yn dod i ben ar 21 Tachwedd. Gweler tudalen 26 am ragor o fanylion ynghylch sut i ymateb a mynegi eich barn.

O fewn 13 wythnos i 21 Tachwedd bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar Wefan Cyngor Dinas Caerdydd. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd gyhoeddi hysbysiad statudol.

### **Hysbysiad statudol**

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar Wefan Cyngor Dinas Caerdydd a'i roi i fyny yn y brif fynedfa neu'n ymyl y brif fynedfa i'r ysgolion/ safleoedd sy'n destun i'r hysbysiad. Byddai copïau o'r hysbysiad ar gael i ysgolion a nodwyd yn yr hysbysiad i'w ddosbarthu ymhlith disgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau staff (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad hwn yn nodi manylion y cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod penodedig.

### **Penderfynu ar y cynigion**

Cabinet Cyngor Dinas Caerdydd fydd yn penderfynu ar y cynigion. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod, neu gymeradwyo gyda diwygiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a dderbyniodd.

### **Hysbysu'r penderfyniad**

Ar ôl penderfynu ar y cynnig, bydd pawb sydd â diddordeb yn cael gwybod am y penderfyniad a bydd yn cael ei gyhoeddi yn electronig ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd.

## **Cwestiynau cyffredin**

- **Beth fyddai'r cynnig yn ei olygu i blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Radur ar hyn o bryd?**

Byddai plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Radur ar hyn o bryd yn aros yn yr ysgol.

- **A fyddai'r cynnig yn cael effaith ar draffig yn yr ardal leol?**

Bydd goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth, sef Asesiad y mae'n rhaid ei gynnal i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu petai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu.

- **A fyddai'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud tra bo plant ar y safle?**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd â phrofiad sylweddol o gwblhau projectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd â disgyblion ynddynt, sy'n deillio o fwrw ymlaen gyda rhaglen fawr a chynyddol y drefniadaeth ysgolion. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir ar safleoedd ysgolion yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr ysgol er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg uchel a safonau diogelwch yn cael eu cynnal.

- **A fyddai unrhyw newid i'r wisg ysgol?**

Nid oes unrhyw newidiadau o ran gwisg i unrhyw un o'r ysgolion yn deillio o'r cynnig hwn.

- **Beth am ddarparwyr gofal plant yn yr ardal?**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cefnogi darparwyr Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar, ac fel y cyfryw y nod fydd gweithio gyda darparwyr gofal plant yn lleol fel bod modd parhau i ddarparu'r gwasanaethau.



## **FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (Darparu lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn Ysgol Gynradd Radur)**

Mae eich barn yn bwysig, dywedwch wrthym beth yr ydych yn ei feddwl o'r cynnig drwy:

Gwblhau a dychwelyd yr holiadur sydd ynghlwm i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.

Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein [www.caerdydd.gov.uk/Ysgolion21ainGanrif](http://www.caerdydd.gov.uk/Ysgolion21ainGanrif)

Neu, os yw'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk)  
<<mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk>>

**Nodwch fod rhaid i bob sylw a anfonir yn ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn yr unigolyn sy'n cyflwyno'r sylwadau.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 21 Tachwell 2016. Yn anffodus, ni all y Cyngor ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

Bydd ymatebion a dderbynnir gan ymgynghoreion sy'n gwrthwynebu'r cynnig yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori ond **ni** fyddant yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Dim ond yn dilyn cyhoeddi **hysbysiad statudol** y gall gwrthwynebiadau gael eu cofrestru.

Gellir gofyn am unrhyw ymatebion a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd rhaid eu gwneud yn gyhoeddus; fodd bynnag, bydd unrhyw wybodaeth a fyddai'n creu cyfle i adnabod unigolyn, megis cyfeiriad e-bost, enw neu gyfeiriad, yn cael ei dileu.

A ydych yn cefnogi'r cynnig i ddarparu lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn Ysgol Gynradd Radur o 2017?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig, rhowch eich rhesymau ynghyd ag unrhyw newidiadau neu opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu.

A hoffech chi wneud sylwadau eraill?

.....

Cyfeiriad e-bost .....

.....

11

11

11

.....

Diolch yn fawr am eich sylwadau

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 219, Neuadd y Sir, CF10 4UW erbyn 21 Tachwedd 2015.

<p>This document is about changes proposed to schools in your area. You have been sent this document for you to find out more about this proposal and for you to give your views. Please tick this box if you require this information in your language and write your name, address and telephone number in English or Welsh in the large box at the bottom of the form. Please return this form to the address at the top of the form.</p>		
FR	<input type="checkbox"/>	<p>Ce document est sur les changements proposés dans les écoles de votre région. Vous avez été envoyé ce document pour que vous vous renseigniez d'avantage au sujet de la proposition et pour vous de donner votre opinion.</p> <p>Veuillez cocher cette case si vous avez besoin de cette information dans votre langue et écrire votre nom, l'adresse et numéro de téléphone en Anglais ou en Welsh/Gallois dans la grande case au bas de ce formulaire. S'il vous plaît, retourner ce formulaire à l'adresse indiquée au début de ce formulaire.</p>
CN	<input type="checkbox"/>	<p>這份文件是關於您所在地區附近學校更改的提議。該文件已發送給您，讓您更加了解這些提議，並讓你提出你的意見。</p> <p>如果您需要了解這些用你的母語翻譯的信息，請勾選此框。</p> <p>在表格末的大框格里，用英語或威爾士語寫你的姓名，地址和電話號碼。並請將本表格寄回該表格頂部的地址。</p>
SM	<input type="checkbox"/>	<p>Warqadani waxay ku saabsantahay aragtida is bedel la doonaayo in lagu sameeyo iskuulada xaafada.</p> <p>Fadlan hadaad u baahantahay faahfaahin ku qoran afkaaga hooyo ,hoos calaamadee.</p> <p>Magacaaga,adireeskaaga, iyo telefonkaagaba ku qor afka ingiriisiga , AMA welshka.</p> <p>Dibna igu soo dir foomka , adireeska kor ku qoran</p>
PL	<input type="checkbox"/>	<p>Dokument ten dotyczy proponowanych zmian w szkołach w Pańskiej okolicy. Wysłano go po to, by mogli się Państwo dowiedzieć więcej na temat projektu oraz wyrazić swoją opinię.</p> <p>Proszę zaznaczyć to okienko, jeżeli potrzebują Państwo owych informacji w języku ojczystym oraz proszę podać imię, nazwisko, adres i numer telefonu po angielsku lub walijsku w dużym okienku na dole formularza. Proszę zwrócić formularz na adres podany na górze.</p>
CZ	<input type="checkbox"/>	<p>Tento dokument se týká změn, které byly navrženy školám ve vašem okrsku.</p> <p>Dokument vám byl zaslán, abyste se dozvěděli více o tomto návrhu a abyste měli možnost vyjádřit své názory.</p> <p>Prosím zaškrtněte toto políčko, pokud potřebujete tuto informaci ve vašem jazyce a napište svoje jméno, adresu a telefonní číslo v anglickém nebo velšském jazyce do velkého políčka, které je v dolní části tohoto formuláře. Prosím zašlete tento formulář zpět na adresu, která je poskytnuta v horní části tohoto formuláře.</p>
AR	<input type="checkbox"/>	<p>هذه الوثيقة بخصوص بعض التغييرات المقترحة على المدارس في منطقتك . ولقد أرسلنا هذه الوثيقة إليك لكي تعلم وتتعرف على هذه المقترحات ثم تبدي رأيك فيها.</p> <p>من فضلك ضع علامة على هذا المربع إذا كنت تحتاج معرفة هذه المعلومات مترجمة إلى لغتك الأصلية ، ثم اكتب اسمك ، وعنوانك ، و رقم هاتفك باللغة الانجليزية أو لغة الويلش في المربع الكبير الموجود بأسفل هذه الورقة .</p> <p>من فضلك أرسل هذه الورقة إلى العنوان الموجود في أعلى هذه الورقة.</p>
HD	<input type="checkbox"/>	<p>यह दस्तावीज़ आपके क्षेत्र में स्कूलों के लिए प्रस्तावित परिवर्तनों के बारे में है। आपको यह दस्ताविज़ इस प्रस्ताव के बारे में और अधिक जानकारी देने के लिए और इसके बारे में आप आपने विचार देने के लिए भेजा गया है।</p> <p>अगर आपको आपकी भाषा में इस जानकारी की अवश्यकता है तो कृपया इस बॉक्स में टिक करे, और फॉर्म के ताल पर बड़े बॉक्स में अंग्रेजी या वेल्श में अपना नाम, पता और टेलिफोने नंबर लिखे। कृपया इस फार्म को उपर दिए गए पते पर वापस भेजे।</p>

DR	<input type="checkbox"/>	این اطلاعات راجب عوض شدن برنامه در مکتب ها در این منطقه است. این اطلاعات برای شما روان شده است که شما بیشتر راجب این موضع بفهمید و نظر خود را بگویید. این چارخانه را علامت بزنید اگر می خواهید این اطلاعات در زبان خودتان باشد. اسم و آدرس و تلفن نمبر خود را در انگلیسی یا در ولسی در داخل چار خانه کلن که در پایان این فورم است نوشته کنید. خواهش پس این فورم را در آدرس که در بالا فورم نوشته است روان کنید.
GJ	<input type="checkbox"/>	આ દસ્તાવેજ તમારા વિસ્તારની શાળાઓના દરખાસ્ત થયેલ ફેરફારો બારામાં છે. આ દસ્તાવેજ તમને દરખાસ્ત બાબત વધુ માહિતી મેળવવાં ને તમારાં અભિપ્રાયો આપવા માટે મોકલાયેલ છે. મહેરબાની કરી આ માહિતી તમને તમારી ભાષામાં જોઈએ તો આ ખાનું ભરી દર્શાવો ને તમારું નામ, સરનામું ને ટેલીફોન નંબર અંગ્રેજી કે વેલ્શમાં પત્રકના છેવાડે મોટાં ખાનામાં લખો. મહેરબાની કરી આ પત્રક મથાળે આપેલ સરનામે પરત કરશો.
KD	<input type="checkbox"/>	نه م نامه په ده رباره ی نه و گورانکارپانه په که پیشنیار کراون بو قوتابخانه کانی ناوچه که ت نه م نامه په ت بو ده نیرین بو نه وه ی ناگداری نه و پیشنیارانه ت بکه ین و بو چونی خوتمن بو روون بکه پته و ه. نکاپه نه و چوار گوشه ب چوکه ده ستیشن بکه نه که ر ده ته ویت کوبیبه ک له م زانپارانه په زماني خوت بو بنیرین. ناوی خوت و نه دره سه که ت و زماره ی ته له فونه که ت په ټنگلیزی یان په ویلزی له و چوار گوشه که وره په ی خواره وه ی نه م لا په ره په بنوسه. نکاپه نه م لا په ره بنیره بو نه و نه دره سه ی له سه روی نه م لا په ره نوسراوه
PJ	<input type="checkbox"/>	ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਆਪ ਜੀ ਦੇ ਇਲਾਕੇ ਦੇ ਸਕੂਲਾਂ ਵਿੱਚ ਆਉਣ ਵਾਲੇ ਪ੍ਰਸਤਾਵ ਉਪਰ ਹੈ। ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਆਪ ਦੀ ਇਨ੍ਹਾਂ ਪ੍ਰਸਤਾਵਾਂ ਉਪਰ ਹੋਰ ਜਾਣਕਾਰੀ ਵਧਾਉਣ ਅਤੇ ਆਪ ਦੇ ਸੁਝਾਵ ਲੈਣ ਲਈ ਭੇਜਿਆ ਗਿਆ ਹੈ। ਜੇਕਰ ਤੁਹਾਨੂੰ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਅਪਣੀ ਭਾਸ਼ਾ ਵਿੱਚ ਚਾਹਿਦੀ ਹੈ ਤਾਂ ਇਸ ਖਾਨੇ ਵਿੱਚ ਟਿੱਕ ਕਰੋ ਅਤੇ ਅਪਣਾਂ ਨਾਂ, ਪਤਾ ਅਤੇ ਟੈਲੀਫੋਨ ਨੰਬਰ ਇੰਗਲਿਸ਼ ਜਾਂ ਵੈਲਸ਼ ਵਿੱਚ ਫਾਰਮ ਦੇ ਨਿੱਚੇ ਬੱਝੇ ਵੱਢੇ ਖਾਨੇ ਵਿੱਚ ਲਿਖੋ। ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਇਹ ਫਾਰਮ ਉਪਰ ਦਿੱਤੇ ਪਤੇ ਤੇ ਵਾਪਸ ਕਰੋ।
UD	<input type="checkbox"/>	یہ دستاویز آپ کے علاقے میں سکولوں کی تجویز تہدیلیوں کے بارہ میں ہے۔ آپ کو یہ دستاویز اس لیے لیے بھیجی جارہی ہے تاکہ آپ اس تجویز کے بارہ میں مزید جان سکیں اور اپنی رائے سے آگاہ کریں۔ اگر آپ کو یہ معلومات اپنی زبان میں چاہیے تو برائے مہربانی اس خانے میں نشان لگادیں اور اپنا نام، پتہ اور فون نمبر انگریزی یا ویلش زبان میں اس فارم میں نیچے دیے گئے بڑے خانے میں لکھ دیں۔ مہربانی فرما کر یہ فارم اوپر دیے گئے پتہ پر واپس بھیجوا دیں۔
BG	<input type="checkbox"/>	ইহা আপনার এলাকার স্কুলগুলিতে পরিবর্তন সম্বন্ধে প্রস্তাবিত একটি ডকিউমেন্ট। এই ডকিউমেন্টটি আপনাকে পাঠানো হয়েছে আপনার অবগতি এবং আপনার মতামত জানার জন্য। যদি এই তথ্যটি আপনার ভাষায় পেতে চান তবে দয়াকরে এই বাজেট টিক দিন এবং আপনার নাম, ঠিকানা ও টেলিফোন নাম্বার ওয়েলশ অথবা ইংরেজীতে এই ফর্মের নিচের বড় বাজের মধ্যে লিখুন। দয়াকরে ফর্মের উপরে লিখিত ঠিকানায় এই ফর্মটি ফেরৎ পাঠিয়ে দিন।

✉	Name:
	Address:
☎	Phone: